Uned D23 Cloi ac adolygu sesiwn

Cyflwyniad

Crynodeb

Uned am gloi sesiwn yw hon – er enghraifft, sesiwn weithgaredd awyr agored, neu sesiwn 'ragflas' amser hamdden ar gyfer camp neu weithgaredd neilltuol. Mae'r uned hefyd yn cynnwys adolygu'r sesiwn gyda'r cyfranogwyr.
Efallai mai diben y sesiwn fyddai:

- rhoi cyflwyniad i bobl i gamp neu weithgaredd
- cynnig gweithgareddau hamdden i bobl sy'n hwyl ac yn bleserus
- eu helpu i dyfu fel unigolion
- datblygu eu sgiliau cymdeithasol
- rhoi'r posibilrwydd iddynt ymwneud ymhellach â champ neu weithgaredd
- ateb rhai gofynion cwricwlwm – er enghraifft y cwricwlwm cenedlaethol neu gwricwlwm a gynlluniwyd gan gorff llywodraethu cenedlaethol camp arbennig.

Rhennir yr uned yn dair rhan. Mae'r rhan gyntaf (tudalen 2) yn rhoi enghreifftiau ac esboniadau o rai o'r geiriau a ddefnyddiwn yn yr uned. Mae'r ail ran (tudalennau 3-5) yn disgrifio'r tri pheth y mae'n rhaid ichi eu gwneud. Dyma nhw:

D23.1 Dod â'r sesiwn i ben
D23.2 Adolygu'r sesiwn gyda'r cyfranogwyr
D23.3 Trafod cyfarpar, dillad a chyfleusterau yn dilyn y sesiwn

Mae'r drydedd ran (tudalen 6) yn cwmpasu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae'n rhaid ichi eu cael.

Grŵp Targed

Mae'r uned hon ar gyfer pobl sy'n ymwneud ag arwain cyfranogwyr mewn sesiynau gweithgaredd gyda rhywfaint o oruchwyliaeth, fel rheol mewn amgylchedd a reolir.

Unedau Cysylltiedig

Mae'r uned hon yn cysylltu'n agos ag unedau D21 a D22.

Lle yn y Fframwaith NVQ/SVQ

Mae'r uned yn uned graidd yn yr NVQ/SVQ lefel 2 Arwain Gweithgareddau.

Cysylltiadau â Sgiliau Allweddol a Chraidd

Bydd yr uned hon yn darparu peth tystiolaeth ar gyfer y Sgiliau Allweddol QCA hyn:
Cyfathrebu 2.1a, 2.1b, 2.2, 2.3
Cymhwyso Rhifau 1.1, 1.2, 1.3
Gweithio gyda Phobl Eraill 2.1, 2.2, 2.3
Datrys Problemau 2.1, 2.2, 2.3

a'r Sgiliau Craidd SQA hyn:
Cyfathrebu Canolradd 1
Rhifedd Mynediad 3
Gweithio gyda Phobl Eraill Canolradd 1
Datrys Problemau Canolradd 1

© Skills Active, 2002.

Uned D23 Cloi ac adolygu sesiwn

Beth yw Ystyr rhai o'r Geiriau a Ddefnyddiwn yn yr uned hon

Seiliedig ar gwricwlwm	*mewn cyd-destun addysgol, gall hyn gyfeirio at ofynion y cwricwlwm cenedlaethol; mewn cyd-destun hyfforddi, gall gyfeirio at ofynion a osodir gan gorff llywodraethu cenedlaethol y gamp neu'r gweithgaredd*
Annog pobl i gymryd rhan yn y dyfodol a datblygu yn y gamp neu'r gweithgaredd	*rhoi cyfle i'r cyfranogwyr ddilyn y gweithgaredd ymhellach yn ddiweddarach*
Amgylchedd	*yr ardal lle bydd y gweithgaredd yn digwydd; gallai fod yn gyfleuster dan do neu'n amgylchedd awyr agored naturiol*
Adborth	*sylwadau gan gyfranogwyr am eu teimladau am y sesiwn*
Gofynion cenedlaethol ar gyfer y gweithgaredd	*y rhai a osodir i lawr gan gyrff llywodraethu cenedlaethol lle bo'r rhain yn berthnasol*
Cyfranogwyr	*y bobl y byddwch yn eu harwain yn ystod y gweithgaredd*
Pobl ag anghenion neilltuol	*pobl y gallai'r sesiwn fod yn fwy heriol nag sy'n arferol iddynt, er enghraifft pobl â chyflyrau meddygol, pobl sydd dros bwysau, yn anarferol o swil neu nerfus, merched beichiog; nid yw'r uned hon yn cwmpasu cyfranogwyr anabl*
Datblygiad personol a chymdeithasol	*galluogi pobl i wella eu galluoedd personol mewn meysydd fel hunanhyder, hunan-barch, hunanddibyniaeth, hunanddisgyblaeth a datrys problemau yn ogystal â'u gallu i weithio gyda phobl eraill ac uniaethu â nhw*
Yn barod yn gorfforol a meddyliol	*cyfranogwyr yn gallu cwblhau'r gweithgaredd heb straen corfforol neu emosiynol diangen na pherygl anaf*
Gweithgareddau hamdden	*profiadau hamdden pleserus sy'n hwyl, a gyflwynir yn aml yng nghyd-destun gwyliau gweithgaredd neu gynllun gwyliau*
Adolygu	*y broses o fynd dros y sesiwn gyda'r cyfranogwyr, gan eu helpu i fyfyrio ar eu profiadau a hwyluso dysgu pellach; dylai'r adolygiad ychwanegu gwerth at y sesiwn a chael ei gynnal er budd y cyfranogwyr; ond gellir defnyddio canlyniadau'r adolygiad i wella sesiynau i eraill yn y dyfodol*
Synnwyr o gyflawniad	*cyfranogwyr yn teimlo'n dda ynghylch beth maent wedi ei wneud a'i ddysgu yn ystod y sesiwn*
Sesiwn	*cyfnod pan fyddwch yn arwain cyfranogwyr mewn gweithgareddau gyda rhyw elfen o ymdrech gorfforol a/neu sgil / datrys problemau; gall y gweithgareddau hyn fod yn gampau cydnabyddedig, fel canŵio, hwylio, badminton neu bêl-droed neu gallant gael eu creu'n fyrfyfyr i ateb amcanion arbennig; yn y cyd-destun awyr agored, byddant bron yn sicr o gynnwys elfen o risg a reolir; gall gweithgareddau fod yn 'rhagflas' ar gyfer camp sy'n annog cyfranogwr i fynd ymlaen i ddatblygu ei berfformiad yng nghyd-destun hyfforddiant*

© Skills Active, 2002.

D23.1

Dod â'r sesiwn i ben

Y Safon Genedlaethol

Beth mae'n rhaid ichi ei wneud

I gyrraedd y safon genedlaethol, rhaid ichi:

1 rheoli eich amser yn effeithiol i ddod â'r sesiwn i ben

2 paratoi'r **cyfranogwyr** yn emosiynol ac yn gorfforol i orffen y gweithgareddau'n ddiogel

3 annog a helpu'r **cyfranogwyr** i dacluso ar ddiwedd y sesiwn

4 rhoi unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen ar y **cyfranogwyr** iddynt

5 gwneud yn siŵr bod y **cyfranogwyr** yn gadael y sesiwn mewn ffordd ddiogel a threfnus

6 dilyn gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau a'u cofnodi yn ystod y sesiwn

Beth mae'n rhaid ichi ei gwmpasu

O'ch gwaith rhaid ichi ddangos eich bod wedi gorffen sesiynau sy'n cynnwys dau o'r canlynol:

a cyfranogwr

1 oedolion

2 plant a phobl ifanc

3 pobl ag anghenion neilltuol

Rhaid ichi hefyd ddangos, fodd bynnag, fod yr wybodaeth angenrheidiol gennych i gwmpasu'r holl fathau o gyd-destun a restrir uchod.

© Skills Active, 2002.

D23.2

Adolygu'r sesiwn gyda'r cyfranogwyr

Y Safon Genedlaethol

Beth mae'n rhaid ichi ei wneud

I gyrraedd y safon genedlaethol, rhaid ichi:

1. dewis amser a lle priodol ar gyfer yr adolygiad
2. helpu pob **cyfranogwr** i gymryd rhan mor lawn ag y bo modd yn yr adolygiad
3. gwneud yn siŵr bod yr adolygiad yn rhoi ystyriaeth lawn i brofiadau'r **cyfranogwyr** yn ystod y **sesiwn**
4. helpu'r **cyfranogwyr** i weld a dathlu beth maent wedi ei gyflawni yn ystod y **sesiwn**
5. helpu'r **cyfranogwyr** i ddysgu oddi wrth eu profiadau a'r hyn a gyflawnwyd ganddynt
6. trafod gyda'r **cyfranogwyr** sut y gellir defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn y dyfodol
7. crynhoi gyda'r **cyfranogwyr** i ba raddau y cyrhaeddodd y sesiwn y nodau a gynlluniwyd a diwallu eu hanghenion a'u disgwyliadau
8. trafod canlyniadau'r adolygiad gyda'r cydweithiwr sy'n gyfrifol am y rhaglen a chytuno ar gamau gweithredu yn y dyfodol

Beth mae'n rhaid ichi ei gwmpasu

O'ch gwaith rhaid ichi ddangos eich bod wedi adolygu o leiaf ddau o'r mathau canlynol o:

a sesiwn

1 hamdden

2 seiliedig ar gwricwlwm

3 datblygiad personol a chymdeithasol

4 annog pobl i gymryd rhan yn y dyfodol a datblygu yn y gamp neu'r gweithgaredd

gydag o leiaf ddau o'r mathau canlynol o:

b cyfranogwr

1 oedolion

2 plant a phobl ifanc

3 pobl ag anghenion neilltuol

Rhaid ichi hefyd ddangos, fodd bynnag, fod yr wybodaeth angenrheidiol gennych i gwmpasu'r holl fathau o gyd-destun a restrir uchod.

© Skills Active, 2002.

D23.3

Trafod cyfarpar, dillad a chyfleusterau yn dilyn y sesiwn

Y Safon Genedlaethol

Beth mae'n rhaid ichi ei wneud

I gyrraedd y safon genedlaethol, rhaid ichi:

1 dilyn y gweithdrefnau cywir ar gyfer gwirio cyfarpar, dillad a chyfleusterau yn dilyn y sesiwn

2 adnabod a symud unrhyw gyfarpar peryglus neu annefnyddiadwy fel na chânt eu defnyddio a rhoi gwybod i'r cydweithiwr sy'n gyfrifol

3 gwneud yn siŵr bod cyfarpar, dillad a chyfleusterau mewn cyflwr addas i'w defnyddio yn y dyfodol

4 gwneud yn siŵr bod cyfarpar yn cael ei ddychwelyd i'r man storio cywir

Beth mae'n rhaid ichi ei gwmpasu

Rhaid ichi ddangos ichi ateb y gofynion a ddangosir gyferbyn.

© Skills Active, 2002.

Uned D23 Cloi ac adolygu sesiwn

Beth mae'n rhaid ichi ei wybod a'i ddeall

I fod yn gymwys yn yr uned hon, rhaid ichi wybod a deall y canlynol

Ar gyfer yr uned gyfan

K1 y gwerthoedd neu'r codau ymarfer perthnasol i'r gwaith rydych chi'n ei wneud

K2 pwysigrwydd cloi sesiwn yn ofalus a chyda digon o amser

K3 y gofynion iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i'r gweithgareddau rydych yn eu cynllunio, er enghraifft: polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch eich sefydliad, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, gofynion gweithgareddau o fewn cwmpas Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol, gofynion gweithgareddau o fewn cwmpas Deddf Canolfannau Gweithgareddau (Diogelwch Pobl Ifanc) lle bo'r rhain yn berthnasol

K4 anghenion, addewid a disgwyliadau'r cyfranogwyr

K5 y mathau o anghenion arbennig a all fod gan gyfranogwyr a sut y gallech orfod addasu eich cynlluniau ar gyfer cloi ac adolygu'r sesiwn i roi ystyriaeth i'r anghenion hyn

Ar gyfer D23.1 Dod â'r sesiwn i ben

K6 pwysigrwydd paratoi cyfranogwyr i orffen eu gweithgareddau a pham y dylech neilltuo digon o amser ar gyfer hyn

K7 beth a olygir wrth baratoi'r cyfranogwyr yn emosiynol ac yn gorfforol i orffen eu gweithgareddau a pham mae hyn yn bwysig

K8 y mathau o wybodaeth y gall fod ar gyfranogwyr eu hangen ar ddiwedd sesiwn

K9 pam y dylid annog a helpu cyfranogwyr i ymdrin â chyfarpar a chyfleusterau ar ôl eu defnyddio

K10 pam y dylai ymadawiad y cyfranogwyr fod yn ddiogel a threfnus a'r peryglon a allai fodoli wrth iddynt adael y sesiwn

K11 gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer cofnodi ac adrodd am ddigwyddiadau

Ar gyfer D23.2 Adolygu'r sesiwn gyda'r cyfranogwyr

K12 pwysigrwydd a diben adolygu'r sesiwn gyda'r cyfranogwyr

K13 pam y dylid rhoi adborth agored ac onest – negyddol a chadarnhaol – i'r cyfranogwyr ar y sesiwn

K14 y technegau y gallwch eu defnyddio i annog a hwyluso adborth

K15 pam mae'n bwysig mesur pa mor dda y mae'r sesiwn wedi cyrraedd ei nodau a sut i wneud hynny

K16 y mathau o anghenion a disgwyliadau nas diwallwyd a all fod gan gyfranogwyr ar ddiwedd sesiwn a sut i drafod y rhain

K17 pwysigrwydd gweld a chydnabod cyflawniad a dysg

K18 pam mae'n bwysig rhannu canlyniadau'r adolygiad gyda'r cydweithiwr sy'n gyfrifol am y rhaglen a pha gamau gweithredu a all godi yn y dyfodol

© Skills Active, 2002.

Uned D23 Cloi ac adolygu sesiwn

Ar gyfer D23.3 Trafod cyfarpar, dillad a chyfleusterau yn dilyn y sesiwn

K19 gofynion sefydliadau, gofynion cyfreithiol a gofynion cyrff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer y cyfarpar, y dillad a'r cyfleusterau rydych yn eu defnyddio

K20 pwysigrwydd gwirio cyfarpar, dillad a chyfleusterau ar ôl iddynt gael eu defnyddio ac am beth i edrych

K21 y mannau storio cywir ar gyfer y cyfarpar a'r dillad a ddefnyddiwch

© Skills Active, 2002.